# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 32
02/11/20

## Mae Iesu'n caru plant

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, John Gamble, James Ferguson a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org




# Stori

### Fersiwn Beibl.net



Roedd pobl yn dod â'u plant bach at Iesu er mwyn iddo eu cyffwrdd a'u bendithio. Ond roedd y disgyblion yn dweud y drefn wrthyn nhw. Roedd Iesu'n ddig pan welodd nhw'n gwneud hynny. “Gadewch i'r plant bach ddod ata i,” meddai wrthyn nhw, “Peidiwch eu rhwystro, am mai rhai fel nhw sy'n derbyn teyrnasiad Duw. Credwch chi fi, heb ymddiried fel plentyn bach, wnewch chi byth ddod yn un o'r rhai mae Duw'n teyrnasu yn eu bywydau.”
Yna cododd y plant yn ei freichiau, rhoi ei ddwylo arnyn nhw a'u bendithio.

*Marc 10:13-16 Beibl.net*



### Fersiwn syml

Un diwrnod roedd pobl yn dod  â’u plant at Iesu oherwydd roedden nhw eisiau i Iesu roi ei ddwylo arnynt a’u bendithio. Roedd y disgyblion yn anfon y bobl i ffwrdd gan eu bod yn meddwl fod Iesu’n rhy brysur. Gwelodd Iesu beth oedd yn digwydd a dywedodd wrth y disgyblion, “Gadewch i’r plant bach ddod ata I a pheidiwch byth â throi plant i ffwrdd. Mae’r plant bach yn llawn cariad ac yn ymddiried yn Nuw a rhai fel nhw fydd yn derbyn teyrnas Dduw.” Gosododd Iesu ei ddwylo ar y plant â’i bendithio. Dangosodd Iesu i’w ddisgyblion bod ganddo amser i bawb hyd yn oed i blant.

# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:



1. Beth wyt ti’n gallu eu gwneud nad ydy oedolion yn gallu eu gwneud?
2. Pam wyt ti’n meddwl fod y rhieni eisiau dod â’u plant at Iesu?
3. Pam wyt ti’n meddwl fod y disgyblion yn ceisio stopio’r bobl rhag dod â’u plant at Iesu?
4. Beth wyt ti’n ei ddysgu am Iesu o’r hanes hwn?

# Gweddi fer


O Dduw, diolch i Ti dy fod Ti’n caru plant fel fi.
Diolch i Ti dy fod yn barod i wrando arna i bob amser.
Diolch i Ti nad wyt Ti byth yn rhy brysur i fod gyda fi.
Plîs helpa fi i dy drystio Di fwy bob dydd.
Amen.



# Stori i'w lliwio

# Mae Iesu'n caru plant

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Roedd Iesu'n caru plant. Roedden nhw'n teimlo'n ddiogel gydag ef. Dwyt ti byth ar dy ben dy hun. Mae Iesu'n dy garu di.




Roedd mamau'n dod â'u plant a'u babanod at Iesu o hyd ac o hyd er mwyn iddo eu dal nhw a'u bendithio.



Roedd Iesu wrth ei fodd yn cael eu gweld nhw ac roedd y plant yn teimlo'n ddiogel gyda Iesu. Roedd Iesu'n garedig ac yn addfwyn.



Ond un tro roedd disgyblion Iesu yn meddwl ei fod o'n rhy brysur i fod yn dal babanod yn ei freichiau. Wnaethon nhw geisio anfon y mamau oddi yno.



Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi. Peidiwch â'u hanfon i ffwrdd. Maen nhw'n werthfawr i Dduw."



"Wir i chi, fydd unrhyw un sydd ddim yn caru Duw fel mae'r plant bach hyn yn ei garu, ddim yn gallu mynd i'r nefoedd,"meddai Iesu.



Yna daliodd Iesu'r plant bach yn ei freichiau a gweddïodd drostyn nhw.



A thrwy'r byd i gyd mae yna blant bach fel fi yn parhau i garu Iesu ac eisiau cadw'n agos ato fo.

# Sialensau

## Dwi'n gallu…

Mae plant yn gallu gwneud pethau nad ydy oedolion yn gallu eu gwneud!

Meddylia am 10 o bethau rwyt ti'n gallu eu gwneud nad ydy oedolion yn gallu eu gwneud.
Dyma rai pethau: gwneud bob dim yn hwyl, dysgu defnyddio technoleg yn gyflym ...





## Pypedau Bag

Gwna byped allan o fag papur.

- Lliwia ac addurna fag dal cinio neu unrhyw fag papur arall a gwneud iddo edrych fel ti.
- Gall ceg y pyped fod ble mae'r bag yn plygu pan wyt ti'n rhoi dy law i mewn ynddo. Gelli di ludo edafedd neu wlân ar dop y bag fel gwallt a.y.y.b. a gelli liwio'r bag yr un lliw â'r crys neu'r wisg rwyt ti'n ei gwisgo ar y pryd. Ychwanega fotymau go iawn ac hefyd glyna lygaid gwgli, sticeri neu rai wedi eu gwneud allan o ffelt yn sownd yn y bag, os wyt ti'n dymuno.
- Nawr ysgrifenna dy enw ar gefn y bag.

## Drysfa

Yn yr hanes am Iesu a'r plant, roedd y rhieni yn cael trafferth dod â'u plant at Iesu.


Beth am i ti greu drysfa tu allan gan ddefnyddio brigau a dail, neu yn y tŷ gyda llinyn, rhuban neu glustogau. Faint o amser fydd yn cymryd i dy deulu ddarganfod eu ffordd drwy'r ddrysfa?



**Fedri di wneud y stori gan ddefnyddio Lego?**





# Chwilair


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | RH | W | Y | S | T | R | O | I | D | O | C |
| D | Y | U | B | CH | W | E | D | A | G | D | T |
| T | W | FF | D | A | P | L | E | N | T | Y | N |
| N | CH | A | W | B | CH | D | I | Y | E | W | N |
| A | W | Y | E | R | C | A | R | U | Y | Y | O |
| L | D | N | U | E | DD | E | I | D | R | B | I |
| P | E | I | D | I | W | CH | DD | O | N | F | TH |
| O | R | E | P | CH | O | DD | M | D | A | S | I |
| U | C | N | O | I | L | B | Y | G | S | I | D |
| S | A | N | B | A | Y | C | D | R | E | F | N |
| E | T | E | L | U | W | I | G | I | D | DD | E |
| I | G | W | E | L | D | E | R | B | Y | N | B |

BACH
BENDITHIO
BREICHIAU
BYWYD
CARU
CODI
CREDWCH
CYFFWRDD
DERBYN
DIG
DISGYBLION
DOD
DREFN
DWEUD
DWYLO
GADEWCH
GWELD
IESU
PEIDIWCH
PLANT
PLENTYN
POBL
RHWYSTRO
TEYRNAS
YMDDIRIED

# Posau


Fedri di helpu'r plant hyn i fynd trwy'r ddrysfa i gyrraedd Iesu?








Mae rhywun wedi cymysgu'r llun hwn. Fedri di ei gywiro drwy roi pob darn yn ei le cywir ar y grid gwag?





# Gweddi Greadigol

## Plant y byd

Mae Iesu'n croesawu plant o bob rhan o'r byd. Torra'r templed allan a gwna'r ciwb gweddi. Yna defnyddia'r ciwb i weddïo dros blant yr un oed â thi sy'n byw ym mhob un o'r gwledydd.





## Mae Iesu'n fy ngharu

Yn yr hanes roedd Iesu eisiau i'r plant gael dod ato. Mae Iesu'n caru plant. Mae Iesu'n dy garu sut bynnag wyt ti'n teimlo, beth bynnag wyt ti wedi ei wneud.

**Byddi angen:**

- Papurau gwahanol liwiau
- Pensil
- Siswrn
- Glud






**Beth i'w wneud**

- Gwna siâp calon ar un papur a'i dorri allan.
- Ar bapur lliw gwahanol gwna siâp calon arall rhyw 1 – 2cm yn fwy na'r cyntaf.
- Gwna hyn eto nes y bydd gennyt ti 5 calon o bapur lliw gwahanol, bob un ychydig yn fwy na'r llall.
- Gluda'r calonnau ar ben ei gilydd.
- Ar y galon leiaf ysgrifenna: 'Mae Iesu'n fy ngharu bob amser!'
- Ysgrifenna ar y calonnau eraill am yr amseroedd mae Iesu'n dy garu: pan wyt ti'n dda neu'n ddrwg, yn hapus neu'n flinedig.
- Wrth i ti ysgrifennu, diolcha i Iesu am dy garu.



## Pobl glai

**Byddi angen:** clai neu plasticine

**Beth i'w wneud:**

- Defnyddia'r clai i wneud pobl a phlant.
- Wrth i ti wneud y bobl meddylia am aelodau o dy deulu neu dy ffrindiau.
- Gofynna i Dduw eu helpu i drystio ynddo.

# Rysáit

## Bisgedi

**Cynhwysion** (ar gyfer 20 o fisgedi):
90g o fenyn( meddal ac heb halen ynddo)
100g siwgr caster euraid garw (unrefined)
1 wy
½ llwy de o rinflas fanila
200g o flawd plaen
½ llwy de o bowdr pobi
½ llwy de o halen



**Dull**

1. Rhidylla'r blawd, powdr pobi a'r halen i mewn i bowlen a'i gosod o'r neilltu.
2. Mewn bowlen fawr cymysga'r menyn a'r siwgr nes i liw y gymysgedd droi'n felyn golau. Cura'r wy a'r rhinflas i mewn i'r gymysgedd.
3. Ychwanega'r blawd i'r gymysgedd a chymysga'r cyfan nes bydd toes wedi ei ffurfio. Lapia'r toes mewn 'Clingfilm' a'i roi yn yr oergell i oeri am o leiaf awr.
4. Cynhesa'r popty i dymheredd o 170 gradd ( 150 gradd ffan, marc nwy 3). Rholia'r toes allan i drwch o 0.5cm ar arwynebedd blodiog .
5. Torra'r bisgedi allan â thorrwr a'u rhoi ar hambwrdd pobi. Casgla'r toes sydd dros ben at ei gilydd, ei dylino a'i rolio allan eto a thorra ragor o fisgedi allan.
6. Rho nhw yn y popty i goginio am 8 – 12 munud nes eu bod yn euraid.
7. Tynna nhw allan o'r popty a'u rhoi ar rac oeri a'u gadael nes eu bod yn hollol oer cyn i ti eu haddurno.



# Pos


Fedri di ddadgymysgu'r teils i ddod o hyd i'r geiriau o Marc 10 adnod 14?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| hai fel nhw sy'n | | | | |
| lant bach dd | ro, am mai r | eyrnasia | | |
| rhwyst | d Duw. | meddai wr | ch i'r p | diwch eu |
| od ata i," | "Gadew | thyn nhw, "Pei | derbyn t | |

# Dolenni



Fideo o'r stori
https://youtu.be/TvL0zEM_L20




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/1pVma79xWIs




# Gemau

## Pêl droed cranc

**Byddi angen:**

- 2 neu fwy o chwaraewyr
- Balŵn ( neu fwy rhag ofn i'r balŵn fyrstio)
- Llinyn neu edafedd
- Lle diogel yn y tŷ i chwarae



**Sut i chwarae:**

- Rhannwch yn ddau dîm gyda dau golwr (os oes gennych ddigon o chwaraewyr).
- Dewiswch rywbeth fel gôl i bob tîm.
- Eglurwch sut i fod mewn ystum cranc: dwy law a dwy droed ar lawr, boliau tuag at y nenfwd).
- Rhaid symud fel cranc drwy'r gêm.
- Dim ond gyda'ch traed neu'ch pen gewch chi gyffwrdd y balŵn, dim dwylo.
- Mae'r balŵn yn cael ei gollwng yn y canol ar y cychwyn ac ar ôl pob gôl.
- Mae pob tîm yn ceisio cael y balŵn i gôl y tîm arall.
- Os ydy'r balŵn yn mynd oddi ar y lle chwarae, mae'n cael ei gollwng yn ôl i mewn i'r gêm.

## Y Plant Wrth Draed yr Iesu

**Byddi angen:**


- Lluniau o blant o gylchgronau neu lun ohonot dy hun ar ddarn o bapur
- Bwmbwr/mwgwd
- Llun o Iesu gyda'r geiriau ar y papur – "Gadewch i'r plant ddod ataf fi."



**Sut i chwarae:**

- Rho'r llun o Iesu ar fwrdd poster â phinnau bawd.Rho'r mwgwd dros lygaid pob plentyn yn ei dro ac yna rho'r llun ohonynt eu hunain iddyn nhw neu lun o'r cylchgrawn maen nhw wedi ei ddewis a'i dorri allan.
- Tro'r plentyn o gwmpas dair gwaith ac yna gofynna iddo geisio pinio'r llun sy'n ei law i'r llun o Iesu ar y bwrdd poster.
- Wedi i'r gêm orffen a phob un o'r plant wedi cael tro, gad iddyn nhw symud eu lluniau at draed Iesu, os nad oedden nhw wedi pinio eu lluniau yn agos i'w draed pan oedden nhw'n gwisgo'r bwmbwr/mwgwd.

# Canu



**"Gadewch i'r plant bach ddod ata i."**
**Dyma eiriau Iesu amdanom ni.**
**Mae'n dal ni yn ei freichiau -**
**mae ei gariad mor fawr**
**Dwi'n dal i allu dod at Iesu nawr.**

**Daeth Iesu i ddod â ni at Dduw ein Tad**
**Ac i'n helpu ni i wybod sut i fyw**
**A chaiff pob un sy'n credu ynddo Ef**
**Hawl i ddod yn blentyn Duw.**

*(Mathew 19:14, Ioan 1:12)*
*Hawlfraint 2020 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/1pVma79xWIs
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org